COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 119

Amseru: Arferol

Teitl: Cyfraniad cyllido tuag at Brosiect Rhianta'r Heddlu

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Penderfynodd y CHTh wneud cyfraniad o gyllideb SCHTh i brosiect o fewn yr Heddlu wedi ei anelu at wella'r modd y rheolir swyddogion a staff drwy eu taith fel rhieni. Amcan y prosciect yw darparu cefnogaeth ac arweiniad, yn ogystal â sicrhau bod staff yn parhau i deimlo'n rhan o'r sefydliad a thrwy hynny barhau'r ethos o Ddyfed Powys yn heddlu sy'n cefnogi'r teulu.

Yn dilyn datgan beichiogaeth/mabwysiadu, rhoddir ffolder i'r aelod staff yn cynnwys arweiniad, cefnogaeth cyfeirio a band garddwrn yr elusen Kicks Count sy'n anelu at annog monitro symudiadau'r ffetws er mwyn gostwng achosion o farw-enedigaethau. Bydd pecynau arweiniad ar gyfer goruchwylwyr hefyd yn cael eu cynhyrchu er mwyn rhoi cefnogaeth wrth reoli staff.

Ffurfiwyd y prosiect yn dilyn arolwg a grŵp ffocws a amlygodd nad oedd staff yn adrodd am brofiadau da yn ystod eu Mamolaeth. Mae budd mawr i sicrhau fod staff yn cael eu cefnogi, sy'n ategu strategaeth Calon yr Heddlu a hefyd y gwaith mewn cysylltiad â chadw staff benywaidd a sicrhau eu bod yn symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Bydd gan staff o fewn SCHTh hefyd fynediad at yr adnoddau hyn.

Argymhelliad:
Cadarnhau cyfraniad o £250 o gyllideb SCHTh i Brosiect Rhianta'r Heddlu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwyf yn cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 5/6/2019